

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU

NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 27 Chwefror 2026

Tabled on 27 February 2026

Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety
Ymwelwyr (Cymru)

Development of Tourism and Regulation of Visitor
Accommodation (Wales) Bill

Mark Drakeford 1

Section 1, page 1, line 28, leave out 'of visitor accommodation provided at unregistered premises' and insert 'etc. of visitor accommodation'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 30, hepgorer 'llety ymwelwyr a ddarperir mewn mangreoedd anghofrestredig' a mewnosoder 'etc. llety ymwelwyr'.

Mark Drakeford 2

Section 5, page 4, line 3, after 'basis,', insert 'and
(ii)'.

Adran 5, tudalen 4, llinell 3, ar ôl 'byr,', mewnosoder 'a
(ii)'.

Mark Drakeford 3

Section 5, page 4, line 36, after 'accommodation', insert ', in Wales,'.

Adran 5, tudalen 4, llinell 35, ar ôl 'llety', mewnosoder ', yng Nghymru,'.

Mark Drakeford 4

Section 5, page 4, line 37, leave out 'of a description given in' and insert 'to the extent that it is within'.

Adran 5, tudalen 4, llinell 36, hepgorer 'o ddisgrifiad a roddir yn' a mewnosoder 'i'r graddau y mae'n dod o fewn'.

Mark Drakeford

5

Section 5, page 5, line 5, after ‘Act’, insert ‘but the Welsh Ministers may, by regulations, make further or different provision about the meaning of the term in its application to this Act, including to amend section 6(4) or any other provision of this Act’.

Adran 5, tudalen 5, llinell 5, ar ôl ‘honno’, mewnosoder ‘ond caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch ystyr y term o ran ei gymhwyso i’r Ddeddf hon, gan gynnwys i ddiwygio adran 6(4) neu unrhyw ddarpariaeth arall o’r Ddeddf hon’.

Mark Drakeford

6

Section 6, page 5, line 14, after ‘provided’, insert ‘(or offered)’.

Adran 6, tudalen 5, llinell 13, ar ôl ‘darperir’, mewnosoder ‘(neu y cynigir)’.

Mark Drakeford

7

Section 6, page 5, line 21, leave out ‘(a) make further or different provision about premises at which regulated visitor accommodation is provided being fit for visitor accommodation, and

(b) amend this Act for that purpose, including by omitting any of the requirements’
and insert –

‘() amend the general fitness standard described in section 7, and

() amend, add to or omit any of the specific fitness standards’.

Adran 6, tudalen 5, llinell 22, hepgorer ‘(a) gwneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch mangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn bod yn ffit i fod yn llety ymwelwyr, a

(b) diwygio’r Ddeddf hon at y diben hwnnw, gan gynnwys drwy hepgor unrhyw un neu ragor o’r gofynion’

a mewnosoder –

‘() diwygio’r safon gyffredinol o ran ffitrwydd a ddisgrifir yn adran 7, a

() diwygio, ychwanegu at neu hepgor unrhyw un neu ragor o’r safonau ffitrwydd penodol’.

Mark Drakeford

8

Section 6, page 5, line 27, leave out ‘and sections 7 to 13, a reference to the “premises” at which visitor accommodation is provided’ and insert ‘, sections 7 to 13 and Chapter 3, a reference to “the premises”’.

Adran 6, tudalen 5, llinell 28, hepgorer ‘ac adrannau 7 i 13, mae cyfeiriad at y “mangre” lle y darperir llety ymwelwyr’ a mewnosoder ‘, adrannau 7 i 13 a Phennod 3, mae cyfeiriad at “y fangre”’.

Mark Drakeford 9

Section 9, page 6, line 27, after ‘provided’, insert ‘(or offered)’.

Adran 9, tudalen 6, llinell 27, ar ôl ‘darperir’, mewnosoder ‘(neu y cynigir)’.

Mark Drakeford 10

Section 11, page 8, line 6, leave out ‘except where it’ and insert ‘where the accommodation is in a building, and except where the gas appliance or installation pipework in question’.

Adran 11, tudalen 8, llinell 7, hepgorer ‘ac eithrio pan na fo ond yn cael ei ddefnyddio, neu pan na fônt ond yn cael’ a mewnosoder ‘pan fo’r llety mewn adeilad, ac eithrio pan na fo’r cyfarpar nwy neu’r pibellau gosodiadau o dan sylw ond yn cael ei ddefnyddio neu’.

Mark Drakeford 11

Section 12, page 8, line 35, after ‘corridor’, insert ‘or other similar area;

- (i) (in relation to a mobile home, vessel or other vehicle) a cabin or other similar area’.

Adran 12, tudalen 8, llinell 38, ar ôl ‘goridor’, mewnosoder ‘neu ardal debyg arall;

- (ii) mewn perthynas â chartref symudol, llestr neu gerbyd arall) caban neu ardal debyg arall’.

Mark Drakeford 12

Section 14, page 9, line 13, leave out subsection (1) and insert –

‘() For the purposes of this Act, a “visitor accommodation licence” –

- (a) means a licence granted by the Welsh Ministers, under section [section to be inserted by amendment 27], in respect of premises at which a visitor accommodation provider (“VAP”) provides or offers to provide regulated visitor accommodation, and
- (b) includes a licence granted by the Welsh Ministers, under section [section to be inserted by amendment 38] (provisional licences) except so far as –
 - (i) express provision is made to the contrary, or
 - (ii) the context requires otherwise.’.

Adran 14, tudalen 9, llinell 13, hepgorer is-adran (1) a mewnosoder –

‘() At ddibenion y Ddeddf hon –

- (a) ystyr “trwydded llety ymwelwyr” yw trwydded a roddir gan Weinidogion Cymru, o dan adran [adran i’w mewnosod gan welliant 27], mewn cysylltiad â mangre lle y mae darparwr llety ymwelwyr (“DLIY”) yn darparu, neu’n cynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig, a

(b) mae trwydded llety ymwelwyr yn cynnwys trwydded a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 38*] (trwyddedau dros dro) ac eithrio i'r graddau –

- (i) y mae darpariaeth ddatganedig wedi ei gwneud i'r gwrthwyneb, neu
- (ii) y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.'

Mark Drakeford

13

Section 15, page 9, leave out lines 26 to 27.

Adran 15, tudalen 9, hepgorer llinellau 26 hyd at 27.

Mark Drakeford

14

Section 15, page 9, after line 27, insert –

'() But see also section [*section to be inserted by amendment 38*] in relation to the licence conditions subject to which provisional visitor accommodation licences must be granted.'

Adran 15, tudalen 9, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

'() Ond gweler hefyd adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 38*] mewn perthynas â'r amodau trwydded y mae rhaid rhoi trwyddedau llety ymwelwyr dros dro yn ddarostyngedig iddynt.'

***Mark Drakeford**

15

Section 15, page 9, leave out lines 32 to 33 and insert –

'() that registration is in relation to the regulated visitor accommodation to which the licence relates;'

Adran 15, tudalen 9, hepgorer llinellau 32 hyd at 34 a mewnosoder –

'() y cofrestriad hwnnw mewn perthynas â'r llety ymwelwyr rheoleiddiedig y mae'r drwydded yn ymwneud ag ef;'

Mark Drakeford

16

Section 15, page 10, line 21, leave out "'premises" are to be construed in accordance with' and insert "'the premises" have the same meaning as in'.

Adran 15, tudalen 10, llinell 20, hepgorer 'cyfeiriadau at "mangre" i'w dehongli yn unol ag' a mewnosoder 'i gyfeiriadau at "y fangre" yr un ystyr ag yn'.

Mark Drakeford

17

Section 16, page 10, line 39, leave out '15(1)(a)' and insert '15(1)'.

Adran 16, tudalen 10, llinell 39, hepgorer '15(1)(a)' a mewnosoder '15(1)'.

Mark Drakeford 18

Section 16, page 10, line 40, leave out ‘the’ at the second place where it appears, and insert ‘any’.

Adran 16, tudalen 10, llinell 40, hepgorer ‘y cod’ a mewnosoder ‘ unrhyw god’.

Mark Drakeford 19

Section 16, page 11, line 1, leave out ‘this Part and Part 4’ and insert ‘Parts 3 to 5 of this Act (or by regulations made under those Parts)’.

Adran 16, tudalen 11, llinell 1, hepgorer ‘y Rhan hon a Rhan 4’ a mewnosoder ‘Rannau 3 i 5 o’r Ddeddf hon (neu drwy reoliadau a wneir o dan y Rhannau hynny)’.

Mark Drakeford 20

Section 18, page 12, line 16, leave out ‘in Wales’.

Adran 18, tudalen 12, llinell 16, hepgorer ‘yng Nghymru’.

Mark Drakeford 21

Section 18, page 12, after line 17, insert –

‘() But for the purpose of subsection (1) “a visitor accommodation licence” does not include a provisional visitor accommodation licence (see section [section to be inserted by amendment 38]).’.

Adran 18, tudalen 12, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

‘() Ond at ddiben is-adran (1), nid yw “trwydded llety ymwelwyr” yn cynnwys trwydded llety ymwelwyr dros dro (gweler adran [adran i’w mewnosod gan welliant 38]).’.

Mark Drakeford 22

Section 18, page 12, line 21, after ‘38(1)’, insert ‘in connection with their functions under section [section to be inserted by amendment 27] (determination of applications)’.

Adran 18, tudalen 12, llinell 23, ar ôl ‘38(1)’, mewnosoder ‘mewn cysylltiad â’u swyddogaethau o dan adran [adran i’w mewnosod gan welliant 27] (dyfarnu ar geisiadau)’.

Mark Drakeford 23

Section 18, page 12, line 29, leave out ‘this Chapter’ and insert ‘Parts 3 to 5 of this Act or under regulations made under Parts 3 to 5 of this Act’.

Adran 18, tudalen 12, llinell 31, hepgorer ‘y Bennod’ a mewnosoder ‘Rannau 3 i 5 o’r Ddeddf hon neu o dan reoliadau a wneir o dan Rannau 3 i 5 o’r Ddeddf’.

Mark Drakeford

24

Section 19, page 12, line 32, after ‘requirements’), insert ‘(but see also section [section to be inserted by amendment 38] which makes further provision about approval requirements in relation to applications for provisional licences).’.

Adran 19, tudalen 12, llinell 34, ar ôl ‘cymeradwyo’), mewnosoder ‘(ond gweler hefyd adran [adran i’w mewnosod gan welliant 38] sy’n gwneud darpariaeth bellach ynghylch gofynion cymeradwyo mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau dros dro)’.

Mark Drakeford

25

Section 19, page 13, line 1, leave out lines 1 to 2 and insert –

‘() that registration is in relation to the regulated visitor accommodation to which the licence relates;’.

Adran 19, tudalen 13, llinell 1, hepgorer llinellau 1 hyd at 3 a mewnosoder –

‘() ‘y cofrestriad hwnnw mewn perthynas â’r llety ymwelwyr rheoleiddiedig y mae’r drwydded yn ymwneud ag ef;’.

Mark Drakeford

26

Section 19, page 13, line 37, leave out ‘“premises” are to be construed in accordance with’ and insert ‘“the premises” have the same meaning as in’.

Adran 19, tudalen 13, llinell 38, hepgorer ‘cyfeiriadau at “mangre” i’w dehongli yn unol ag’ a mewnosoder ‘i gyfeiriadau at “y fangre” yr un ystyr ag yn’.

Mark Drakeford

27

Page 14, line 2, leave out section 20 and insert –

[] Licence applications: determination

- (1) This section applies where the Welsh Ministers have received an application for a visitor accommodation licence made by a VAP in accordance with section 18.
- (2) The Welsh Ministers must, as soon as reasonably practicable –
 - (a) determine whether the approval requirements are met in respect of the premises to which the application relates, and
 - (b) give notice to the VAP in accordance with subsection (7).
- (3) The Welsh Ministers must grant the visitor accommodation licence to the VAP (see section 15(1)) where –
 - (a) the Welsh Ministers are satisfied that the approval requirements are met in respect of the premises to which the application relates, and
 - (b) such fee as the Welsh Ministers may prescribe by regulations under section 38(1) in connection with the grant of the licence is paid.

- (4) Where the Welsh Ministers are not satisfied that all of the approval requirements are met in respect of the premises to which the application relates, they must refuse the application, subject to section [section to be inserted by amendment 28] (further assessments).
- (5) For the purposes of this section –
 - (a) the Welsh Ministers may decide whether or not they are satisfied that an approval requirement is met –
 - (i) on the basis only of information contained in (or omitted from) the application and, where available, any information obtained by virtue of section [section to be inserted by amendment 28] (further assessments), or
 - (ii) on the basis of that information and any other information available to the Welsh Ministers, including (but not limited to) information provided in connection with any of their functions under Parts 3 to 5 of this Act or under regulations made under Parts 3 to 5 of this Act;
 - (b) if the Welsh Ministers are satisfied that the approval requirements in section 19(2)(c)(i) and (ii) are met, they may on that basis be satisfied that the requirement in section 19(2)(c)(iii) is met.
- (6) The obligation on the Welsh Ministers (as a licensing authority) under article 42(1)(a) of the Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 (S.I. 2005/1541) (duty to seek representations by enforcing authority) does not apply in relation to the determination of an application for a visitor accommodation licence under this section or section [section to be inserted by amendment 38].
- (7) A notice given to the VAP under subsection (2)(b) must –
 - (a) inform the VAP of the outcome of the application (including, where the application is refused, of the reasons why the Welsh Ministers are not satisfied that all of the approval requirements are met), and
 - (b) set out any right of appeal conferred by section 28.
- (8) A decision stated in a notice under subsection (2)(b) takes effect on the date the notice is given.
- (9) Where a VAP makes an application under section 18 that relates to two or more premises, the Welsh Ministers may separately grant or refuse the application in respect of each of the premises.
- (10) For the purposes of this section, a reference to “the premises” –
 - (a) is, in relation to an application for a licence that relates to regulated visitor accommodation provided in part of the premises, a reference to such part of the premises in which that accommodation is provided, and
 - (b) in the case of an application for a licence that relates to accommodation of a description given in section 5(1)(a) (regulated self-catering accommodation), includes any outdoor area, garage or other building provided for the exclusive use of a visitor during the period in which the visitor is entitled to reside in or at the accommodation;(see also section 6(4) which makes similar provision in relation to the application of fitness standards to premises at which visitor accommodation is provided).’.

Tudalen 14, llinell 2, hepgorer adran 20 a mewnosoder –

[1] Ceisiadau am drwydded: dyfarnu

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi cael cais am drwydded llety ymwelwyr a wnaed gan DLIY yn unol ag adran 18.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol –
 - (a) dyfarnu a yw'r gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r fangre y mae'r cais yn ymwneud â hi, a
 - (b) rhoi hysbysiad i'r DLIY yn unol ag is-adran (7).
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru roi'r drwydded llety ymwelwyr i'r DLIY (gweler adran 15(1)) –
 - (a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r fangre y mae'r cais yn ymwneud â hi, a
 - (b) pan fo unrhyw ffi a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau o dan adran 38(1) mewn cysylltiad â rhoi'r drwydded wedi ei thalu.
- (4) Pan na fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod yr holl ofynion cymeradwyo wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r fangre y mae'r cais yn ymwneud â hi, rhaid iddynt wrthod y cais, yn ddarostyngedig i adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 28*] (asesiadau pellach).
- (5) At ddibenion yr adran hon –
 - (a) caiff Gweinidogion Cymru benderfynu pa un a ydynt wedi eu bodloni ai peidio fod gofyniad cymeradwyo wedi ei fodloni –
 - (i) dim ond ar sail gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y cais (neu wedi ei hepgor ohono) a, phan fo ar gael, unrhyw wybodaeth a gafwyd yn rhinwedd adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 28*] (asesiadau pellach), neu
 - (ii) ar sail yr wybodaeth honno ac unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i Weinidogion Cymru, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) wybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o dan Rannau 3 i 5 o'r Ddeddf hon neu o dan reoliadau a wneir o dan Rannau 3 i 5 o'r Ddeddf hon;
 - (b) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo yn adran 19(2)(c)(i) a (ii) wedi eu bodloni, caiff Gweinidogion Cymru ar y sail honno fod wedi eu bodloni bod y gofyniad yn adran 19(2)(c)(iii) wedi ei fodloni.
- (6) Nid yw'r rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru (fel awdurdod trwyddedu) o dan erthygl 42(1)(a) o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (O.S. 2005/1541) (dyletswydd i geisio sylwadau gan awdurdod gorfodi) yn gymwys mewn perthynas â dyfarnu ar gais am drwydded llety ymwelwyr o dan yr adran hon neu adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 38*].
- (7) Rhaid i hysbysiad a roddir i'r DLIY o dan is-adran (2)(b) –
 - (a) rhoi gwybod i'r DLIY am ganlyniad y cais (gan gynnwys, pan fo'r cais yn cael ei wrthod, am y rhesymau pam nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod yr holl ofynion cymeradwyo wedi eu bodloni), a
 - (b) nodi unrhyw hawl i apelio a roddir gan adran 28.
- (8) Mae penderfyniad a ddatgenir mewn hysbysiad o dan is-adran (2)(b) yn cymryd effaith ar y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

- (9) Pan fo DLIY yn gwneud cais o dan adran 18 sy'n ymwneud â dwy neu ragor o fangreoedd, caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu neu wrthod y cais ar wahân mewn cysylltiad â phob mangre.
- (10) At ddibenion yr adran hon, mae cyfeiriad at “y fangre” –
- (a) mewn perthynas â chais am drwydded sy'n ymwneud â llety ymwelwyr rheoleiddiedig a ddarperir mewn rhan o'r fangre, yn gyfeiriad at y rhan honno o'r fangre lle y darperir y llety hwnnw, a
 - (b) yn achos cais am drwydded sy'n ymwneud â llety o ddisgrifiad a roddir yn adran 5(1)(a) (llety hunanddarpar rheoleiddiedig), yn cynnwys unrhyw ardal yn yr awyr agored, unrhyw garej neu unrhyw adeilad arall a ddarperir at ddefnydd yr ymwelydd a neb arall yn ystod y cyfnod pryd y mae gan yr ymwelydd hawlogaeth i breswyllo yn y llety;
- (gweler hefyd adran 6(4) sy'n gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â chymhwyso safonau ffitrwydd i fangre lle y darperir llety ymwelwyr).’.

Mark Drakeford

28

Page 15, line 15, leave out section 21 and insert –

[] Licence applications: further assessment prior to determination

- (1) This section applies where –
- (a) the Welsh Ministers have received an application for a visitor accommodation licence made by a VAP in accordance with section 18, and
 - (b) they are not satisfied that all of the approval requirements are met, but
 - (c) before concluding their determination of the application, they consider it appropriate that further action is taken or further information is provided.
- (2) Where this section applies the Welsh Ministers must, as soon as reasonably practicable, give notice to the VAP that they are carrying out a further assessment in relation to the application.
- (3) A notice given to the VAP under subsection (2) must –
- (a) set out the reasons why the Welsh Ministers are not satisfied that all of the approval requirements are met,
 - (b) specify –
 - (i) any action that the Welsh Ministers consider the VAP may take, or any information the VAP may provide, for the purpose of satisfying the Welsh Ministers that the approval requirements are met, and
 - (ii) a period, of not less than 28 days starting with the date on which the notice is given, within which that action is to be taken or that information is to be provided, and
 - (c) specify any other action that the Welsh Ministers consider it appropriate to take in order to determine whether the approval requirements are met (which may include arranging for an authorised person to inspect the premises with the agreement of the VAP).

- (4) In this section and in sections 30 and 31, “authorised person” means a person authorised in writing by the Welsh Ministers.’.

Tudalen 15, llinell 18, hepgorer adran 21 a mewnosoder –

[] Ceisiadau am drwydded: asesiad pellach cyn dyfarnu

- (1) Mae’r adran hon yn gymwys –
- (a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi cael cais am drwydded llety ymwelwyr a wnaed gan DLIY yn unol ag adran 18, a
 - (b) pan na fônt wedi eu bodloni bod yr holl ofynion cymeradwyo wedi eu bodloni, ond
 - (c) cyn cwblhau eu dyfarniad ar y cais, pan fônt yn ystyried ei bod yn briodol i gamau gweithredu pellach gael eu cymryd neu i wybodaeth bellach gael ei darparu.
- (2) Pan fo’r adran hon yn gymwys rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad i’r DLIY eu bod yn cynnal asesiad pellach mewn perthynas â’r cais.
- (3) Rhaid i hysbysiad a roddir i’r DLIY o dan is-adran (2) –
- (a) nodi’r rhesymau pam nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod yr holl ofynion cymeradwyo wedi eu bodloni,
 - (b) pennu –
 - (i) unrhyw gamau gweithredu y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y caiff y DLIY eu cymryd, neu unrhyw wybodaeth y caiff y DLIY ei darparu, at ddiben bodloni Gweinidogion Cymru fod y gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni, a
 - (ii) cyfnod, o ddim llai nag 28 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, y mae’r camau gweithredu hynny i gael eu cymryd, neu y mae’r wybodaeth honno i gael ei darparu, ynddo, ac
 - (c) pennu unrhyw gamau gweithredu eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol eu cymryd er mwyn dyfarnu a yw’r gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni (a all gynnwys trefnu i berson awdurdodedig archwilio’r fangre gyda chytundeb y DLIY).
- (4) Yn yr adran hon ac yn adrannau 30 ac 31, ystyr “person awdurdodedig” yw person sydd wedi ei awdurdodi’n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru.’.

Mark Drakeford

29

Section 22, page 16, line 4, leave out ‘or section 21(2),’.

Adran 22, tudalen 16, llinell 4, hepgorer ‘neu adran 21(2),’.

Mark Drakeford

30

Section 23, page 16, line 26, leave out ‘the’ at the third place where it appears and insert ‘any’.

Adran 23, tudalen 16, llinell 27, hepgorer ‘esbonio’r’ a mewnosoder ‘esbonio unrhyw’.

Mark Drakeford 31

Section 23, page 17, line 7, leave out ‘the breach of a licence condition continues or a licence condition’ and insert ‘a licence condition that has previously been breached’.

Adran 23, tudalen 17, llinell 7, hepgorer ‘yw’r tor amod trwydded yn parhau neu os yw amod trwydded’ a mewnosoder ‘yw amod trwydded sydd wedi ei dorri yn flaenorol’.

Mark Drakeford 32

Section 24, page 17, leave out line 33.

Adran 24, tudalen 17, hepgorer llinell 34.

Mark Drakeford 33

Section 24, page 17, after line 35, insert –

- ‘(3) Regulations under this section may make provision –
- (a) for appeals;
 - (b) amending this Act.’.

Adran 24, tudalen 17, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- ‘(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth –
- (a) ar gyfer apelau;
 - (b) sy’n diwygio’r Ddeddf hon.’.

Mark Drakeford 34

Section 25, page 18, after line 2, insert –

- ‘() Regulations under subsection (1)(b) may provide that a prescribed period applies –
- (a) in relation to a description of premises;
 - (b) in relation to a description of regulated visitor accommodation;
 - (c) by reference to the nature or content of the contracts under which a description of regulated visitor accommodation is provided pursuant to a licence;
 - (d) in relation to a description of VAP to which a licence is granted;
 - (e) by reference to a description of person to which visitor accommodation is provided at premises pursuant to a licence;
 - (f) in relation to or by reference to any other matter that the Welsh Ministers consider appropriate.’.

Adran 25, tudalen 18, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

- ‘() Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(b) ddarparu bod cyfnod rhagnodedig yn gymwys –
- (a) mewn perthynas â disgrifiad o fangre;
 - (b) mewn perthynas â disgrifiad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig;

- (c) drwy gyfeirio at natur neu gynnwys y contractau y darperir disgrifiad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig odanynt yn unol â thrwydded;
- (d) mewn perthynas â disgrifiad o DLIY y rhoddir trwydded iddo;
- (e) drwy gyfeirio at ddisgrifiad o berson y darperir llety ymwelwyr iddo mewn mangre yn unol â thrwydded;
- (f) mewn perthynas ag unrhyw fater arall, neu drwy gyfeirio at unrhyw fater arall, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.’

Mark Drakeford

35

Section 25, page 18, line 4, leave out ‘, including provision enabling a licence to be treated as continuing to have effect until the date on which the Welsh Ministers determine an application for a renewal’.

Adran 25, tudalen 18, llinell 4, hepgorer ‘, gan gynnwys darpariaeth sy’n galluogi trwydded i gael ei thrin fel pe bai’n parhau i gael effaith tan y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn dyfarnu ar gais i adnewyddu’.

Mark Drakeford

36

Section 25, page 18, after line 6, insert –

‘() Regulations under subsection (2) –

- (a) must make provision enabling a licence to be treated as continuing to have effect until the date on which the Welsh Ministers determine an application for a renewal;
- (b) may (among other things) make provision about the making and determination of applications for renewal;
- (c) may (among other things) prescribe requirements to be met in relation to an application by a VAP for renewal of a visitor accommodation licence –
 - (i) in relation to a description of premises;
 - (ii) in relation to a description of regulated visitor accommodation;
 - (iii) by reference to the nature or content of the contracts under which a description of regulated visitor accommodation is provided pursuant to a licence;
 - (iv) in relation to a description of VAP to which a licence is granted;
 - (v) by reference to a description of person to which visitor accommodation is provided at premises pursuant to a licence;
 - (vi) in relation to or by reference to any other matter that the Welsh Ministers consider appropriate.’

Adran 25, tudalen 18, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

‘() O ran rheoliadau o dan is-adran (2) –

- (a) rhaid iddynt wneud darpariaeth sy’n galluogi trwydded i gael ei thrin fel pe bai’n parhau i gael effaith tan y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn dyfarnu ar gais i adnewyddu;

- (b) caniateir iddynt (ymysg pethau eraill) wneud darpariaeth ynghylch gwneud ceisiadau i adnewyddu, a dyfarnu arnynt;
- (c) caniateir iddynt (ymysg pethau eraill) ragnodi gofynion sydd i'w bodloni mewn perthynas â chais gan DLIY i adnewyddu trwydded llety ymwelwyr –
 - (i) mewn perthynas â disgrifiad o fangre;
 - (ii) mewn perthynas â disgrifiad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig;
 - (iii) drwy gyfeirio at natur neu gynnwys y contractau y darperir disgrifiad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig odanynt yn unol â thrwydded;
 - (iv) mewn perthynas â disgrifiad o DLIY y rhoddir trwydded iddo;
 - (v) drwy gyfeirio at ddisgrifiad o berson y darperir llety ymwelwyr iddo mewn mangre yn unol â thrwydded;
 - (vi) mewn perthynas ag unrhyw fater arall, neu drwy gyfeirio at unrhyw fater arall, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

Mark Drakeford

37

Section 26, page 18, line 11, leave out 'the circumstances in which a visitor accommodation licence held by a VAP may be amended.

- (2) Regulations under subsection (1) may make provision for a licence to be amended by the Welsh Ministers –
 - (a) upon an application made by the VAP, or
 - (b) without such an application where the VAP and the Welsh Ministers agree.
- (3) Regulations under subsection (1) may also make provision about the circumstances in which it may be reasonable for the Welsh Ministers to amend a licence without an application being made by the VAP and without the VAP's agreement.
- (4) Regulations under subsection (1) may amend this Act'

and insert –

'amendment of a visitor accommodation licence (on a permanent or temporary basis).

- () Regulations under subsection (1) may (among other things) make provision –
 - (a) about the procedure by which –
 - (i) a VAP may apply for an amendment of a licence;
 - (ii) the Welsh Ministers may amend a licence without the agreement of the VAP;
 - (b) about the circumstances in which –
 - (i) the details of the premises or accommodation to which the licence relates may be amended;
 - (ii) licence conditions may be amended.
- () But, where regulations under subsection (1) provide that a licence may be amended so that a condition in section 15(2)(c) (fitness of premises) does not apply to premises in respect of which the licence was granted –

- (a) the regulations must also provide that the licence must be subject to the condition in subsection (4);
 - (b) the regulations may make provision for a summary offence punishable with a fine in respect of a breach of the condition in subsection (4).
- () The condition is that the VAP does not permit any visitor to enter the premises referred to in subsection (3) for the purposes of residing in or at the regulated visitor accommodation.
- () Regulations under subsection (1) may make provision –
- (a) for appeals;
 - (b) amending this Act.
- () For the purposes of this section a reference to “premises” –
- (a) is, in relation to an amendment of a condition that applies in respect of a part of premises in which regulated visitor accommodation is provided, a reference to that part, and
 - (b) in the case of a condition that relates to accommodation of a description given in section 5(1)(a) (regulated self-catering accommodation), includes any outdoor area, garage or other building provided for the exclusive use of a visitor during the period in which the visitor is entitled to reside in or at the accommodation;
- (see also section 6(4) which makes similar provision in relation to the application of fitness standards to premises at which visitor accommodation is provided)’.

Adran 26, tudalen 18, llinell 11, hepgorer ‘â’r amgylchiadau pryd y caniateir diwygio trwydded llety ymwelwyr y mae DLIY yn meddu arni.

- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth i drwydded gael ei diwygio gan Weinidogion Cymru –
 - (a) ar gais a wneir gan y DLIY, neu
 - (b) heb gais o’r fath pan fo’r DLIY a Gweinidogion Cymru yn cytuno.
- (3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) hefyd wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pryd y gall fod yn rhesymol i Weinidogion Cymru ddiwygio trwydded heb i gais gael ei wneud gan y DLIY a heb gytundeb y DLIY.
- (4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio’r Ddeddf hon’

a mewnosoder –

‘â diwygio trwydded llety ymwelwyr (ar sail barhaol neu dros dro).

- () Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill) –
 - (a) ynghylch –
 - (i) y weithdrefn y caiff DLIY wneud cais am ddiwygiad i drwydded drwyddi;
 - (ii) y weithdrefn y caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio trwydded drwyddi heb gytundeb y DLIY;
 - (b) ynghylch yr amgylchiadau pryd –
 - (i) y caniateir diwygio manylion y fangre neu’r llety y mae’r drwydded yn ymwneud â hi neu ag ef;

(ii) y caniateir diwygio amodau trwydded.

- () Ond, pan fo rheoliadau o dan is-adran (1) yn darparu y caniateir diwygio trwydded fel nad yw amod yn adran 15(2)(c) (ffitwrydd mangre) yn gymwys i fangre y rhoddwyd y drwydded mewn cysylltiad â hi –
- (a) rhaid i'r rheoliadau hefyd ddarparu bod rhaid i'r drwydded fod yn ddarostyngedig i'r amod yn is-adran (4);
 - (b) caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer trosedd ddiannod y gellir ei chosbi drwy ddirwy mewn cysylltiad â thorri'r amod yn is-adran (4).
- () Yr amod yw nad yw'r DLIY yn caniatáu i unrhyw ymwelydd fynd i mewn i'r fangre y cyfeirir ati yn is-adran (3) at ddibenion preswyllo yn y llety ymwelwyr rheoleiddiedig.
- () Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth –
- (a) ar gyfer apelau;
 - (b) sy'n diwygio'r Ddeddf hon.
- () At ddibenion yr adran hon, mae cyfeiriad at “mangre” –
- (a) mewn perthynas â diwygiad i amod sy'n gymwys mewn cysylltiad â rhan o fangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig, yn gyfeiriad at y rhan honno, a
 - (b) yn achos amod sy'n ymwneud â llety o ddisgrifiad a roddir yn adran 5(1)(a) (llety hunanddarpar rheoleiddiedig), yn cynnwys unrhyw ardal yn yr awyr agored, unrhyw garej neu unrhyw adeilad arall a ddarperir at ddefnydd yr ymwelydd a neb arall yn ystod y cyfnod pryd y mae gan yr ymwelydd hawlogaeth i breswyllo yn y llety;
- (gweler hefyd adran 6(4) sy'n gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â chymhwyso safonau ffitwrydd i fangre lle y darperir llety ymwelwyr).

Mark Drakeford

38

Page 18, line 23, leave out section 27 and insert –

[] Provisional licences

- (1) This section applies where a VAP –
- (a) intends to provide, or offer to provide, regulated visitor accommodation at premises in Wales in respect of which the VAP is registered, and
 - (b) considers the VAP –
 - (i) is able to demonstrate that the approval requirements in section 19(2)(a) and (b) are met in respect of the premises, and
 - (ii) is unable, for the time being, to demonstrate that the approval requirements in section 19(2)(c)(i) and (ii) (fitness of premises) are met in respect of the premises.
- (2) Where this section applies the VAP may make an application to the Welsh Ministers for a provisional visitor accommodation licence in respect of the premises.
- (3) In subsection (2) a “provisional visitor accommodation licence” means a licence granted subject to –
- (a) the conditions set out in section 15(2)(a) and (b), and

- (b) the condition that the VAP does not permit any visitor to enter the premises for the purposes of residing in or at the regulated visitor accommodation.
- (4) An application under subsection (2) must –
 - (a) be in such form, and made in such manner, as the Welsh Ministers may specify;
 - (b) be accompanied by such fee as the Welsh Ministers may prescribe by regulations under section 38(1) in connection with their functions under subsection (5);
 - (c) specify the approval requirements the VAP considers are not met;
 - (d) contain such other information as the Welsh Ministers may specify.
- (5) Where a VAP makes an application under subsection (2), the Welsh Ministers must, as soon as reasonably practicable after receiving the application –
 - (a) determine whether the approval requirements in section 19(2)(a) and (b) are met in respect of the premises to which the application relates, and
 - (b) give notice to the VAP in accordance with subsection (9).
- (6) The Welsh Ministers must grant the licence to the VAP where –
 - (a) the Welsh Ministers are satisfied that the approval requirements referred to in subsection (5)(a) are met in respect of the premises to which the application relates, and
 - (b) any fee as the Welsh Ministers may prescribe by regulations under section 38(1) in connection with the grant of the licence is paid.
- (7) Where the Welsh Ministers are not satisfied that the approval requirements in section 19(2)(a) and (b) are met in respect of the premises to which the application relates, they must refuse the application.
- (8) For the purposes of this section, the Welsh Ministers may decide whether or not they are satisfied that an approval requirement is met –
 - (a) on the basis only of information contained in (or omitted from) the application, or
 - (b) on the basis of that information and any other information available to the Welsh Ministers, including (but not limited to) information provided in connection with any of their functions under or by virtue of Parts 3 to 5 of this Act.
- (9) Where the Welsh Ministers give a notice under subsection (5)(b) –
 - (a) the notice must –
 - (i) inform the VAP of the outcome of the application (including, where the application is refused, of the reasons why the Welsh Ministers are not satisfied that the approval requirements in section 19(2)(a) and (b) are met), and
 - (ii) set out any right of appeal conferred by section 28;
 - (b) any decision stated in the notice takes effect on the date the notice is given.
- (10) Where a VAP makes an application under subsection (2) that relates to two or more premises, the Welsh Ministers may separately grant or refuse the application in respect of each of the premises.
- (11) For the purposes of this section and section [section to be inserted by amendment 39], a reference to “the premises” –

- (a) is, in relation to an application for a licence that relates to regulated visitor accommodation provided in part of the premises, a reference to such part of the premises in which that accommodation is provided, and
 - (b) in the case of an application for a licence that relates to accommodation of a description given in section 5(1)(a) (regulated self-catering accommodation), includes any outdoor area, garage or other building provided for the exclusive use of a visitor during the period in which the visitor is entitled to reside in or at the accommodation;
- (see also section 6(4) which makes similar provision in relation to the application of fitness standards to premises at which visitor accommodation is provided).’.

Tudalen 18, llinell 24, hepgorer adran 27 a mewnosoder –

[1] Trwyddedau dros dro

- (1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo DLIY –
 - (a) yn bwriadu darparu, neu gynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn mangre yng Nghymru y mae’r DLIY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hi, a
 - (b) yn ystyried –
 - (i) bod y DLIY yn gallu dangos bod y gofynion cymeradwyo yn adran 19(2)(a) a (b) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â’r fangre, a
 - (ii) nad yw’r DLIY yn gallu, am y tro, ddangos bod y gofynion cymeradwyo yn adran 19(2)(c)(i) a (ii) (ffitrwydd mangre) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â’r fangre.
- (2) Pan fo’r adran hon yn gymwys, caiff y DLIY wneud cais i Weinidogion Cymru am drwydded llety ymwelwyr dros dro mewn cysylltiad â’r fangre.
- (3) Yn is-adran (2), ystyr “trwydded llety ymwelwyr dros dro ” yw trwydded a roddir yn ddarostyngedig i –
 - (a) yr amodau a nodir yn adran 15(2)(a) a (b), a
 - (b) yr amod nad yw’r DLIY yn caniatáu i unrhyw ymwelydd fynd i mewn i’r fangre at ddibenion preswyllo yn y llety ymwelwyr rheoleiddiedig.
- (4) Rhaid i gais o dan is-adran (2) –
 - (a) bod ar unrhyw ffurf, a chael ei wneud mewn unrhyw fodd, a bennir gan Weinidogion Cymru;
 - (b) cynnwys gydag ef unrhyw ffi a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau o dan adran 38(1) mewn cysylltiad â’u swyddogaethau o dan is-adran (5);
 - (c) pennu’r gofynion cymeradwyo y mae’r DLIY yn ystyried nad ydynt wedi eu bodloni;
 - (d) cynnwys unrhyw wybodaeth arall a bennir gan Weinidogion Cymru.
- (5) Pan fo DLIY yn gwneud cais o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl cael y cais –
 - (a) dyfarnu a yw’r gofynion cymeradwyo yn adran 19(2)(a) a (b) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â’r fangre y mae’r cais yn ymwneud â hi, a
 - (b) rhoi hysbysiad i’r DLIY yn unol ag is-adran (9).



- (6) Rhaid i Weinidogion Cymru roi'r drwydded i'r DLIY –
- (a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo y cyfeirir atynt yn is-adran (5)(a) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r fangre y mae'r cais yn ymwneud â hi, a
 - (b) pan fo unrhyw ffi a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau o dan adran 38(1) mewn cysylltiad â rhoi'r drwydded wedi ei thalu.
- (7) Pan na fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo yn adran 19(2)(a) a (b) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r fangre y mae'r cais yn ymwneud â hi, rhaid iddynt wrthod y cais.
- (8) At ddibenion yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu pa un a ydynt wedi eu bodloni ai peidio fod gofyniad cymeradwyo wedi ei fodloni –
- (a) dim ond ar sail gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y cais (neu wedi ei hepgor ohono), neu
 - (b) ar sail yr wybodaeth honno ac unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i Weinidogion Cymru, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) wybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o dan Rannau 3 i 5 o'r Ddeddf hon, neu yn rhinwedd y Rhannau hynny.
- (9) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (5)(b) –
- (a) rhaid i'r hysbysiad –
 - (i) rhoi gwybod i'r DLIY am ganlyniad y cais (gan gynnwys, pan fo'r cais yn cael ei wrthod, am y rhesymau pam nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo yn adran 19(2)(a) a (b) wedi eu bodloni), a
 - (ii) nodi unrhyw hawl i apelio a roddir gan adran 28;
 - (b) mae unrhyw benderfyniad a ddatgenir yn yr hysbysiad yn cymryd effaith ar y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.
- (10) Pan fo DLIY yn gwneud cais o dan is-adran (2) sy'n ymwneud â dwy neu ragor o fangreodded, caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu neu wrthod y cais ar wahân mewn cysylltiad â phob mangre.
- (11) At ddibenion yr adran hon ac adran [adran i'w mewnosod gan welliant 39], mae cyfeiriad at "y fangre" –
- (a) mewn perthynas â chais am drwydded sy'n ymwneud â llety ymwelwyr rheoleiddiedig a ddarperir mewn rhan o'r fangre, yn gyfeiriad at y rhan honno o'r fangre lle y darperir y llety hwnnw, a
 - (b) yn achos cais am drwydded sy'n ymwneud â llety o ddisgrifiad a roddir yn adran 5(1)(a) (llety hunanddarpar rheoleiddiedig), yn cynnwys unrhyw ardal yn yr awyr agored, unrhyw garej neu unrhyw adeilad arall a ddarperir at ddefnydd yr ymwelydd a neb arall yn ystod y cyfnod pryd y mae gan yr ymwelydd hawlogaeth i breswyllo yn y llety;
- (gweler hefyd adran 6(4) sy'n gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â chymhwysio safonau ffitrwydd i fangre lle y darperir llety ymwelwyr).



Mark Drakeford

39

Page 19, after line 6, insert a new section –

[] Provisional licences: further provision

- (1) A VAP to which a provisional visitor accommodation licence has been granted under section [section to be inserted by amendment 38] may (at any time) apply for a visitor accommodation licence under section 18 (a “full licence”).
- (2) But where the Welsh Ministers grant a full licence to a VAP in respect of premises under section [section to be inserted by amendment 27], they must revoke the provisional visitor accommodation licence that the VAP holds in respect of those premises.
- (3) The Welsh Ministers may by regulations make further provision about provisional licences.
- (4) Regulations under subsection (3) may (among other things) –
 - (a) make provision for a summary offence punishable with a fine in respect of a breach of the condition in section [section to be inserted by amendment 38](3)(b);
 - (b) make further or different provision about the application of criminal offences under this Act in relation to provisional visitor accommodation licences, including provision modifying those offences in their application in relation to such licences;
 - (c) amend –
 - (i) this Act;
 - (ii) the Visitor Accommodation (Register and Levy) Etc. (Wales) Act 2025 (asc 5).’.

Tudalen 19, ar ôl llinell 7, mewnosoder adran newydd –

[] Trwyddedau dros dro: darpariaeth bellach

- (1) Caiff DLIY y mae trwydded llety ymwelwyr dros dro wedi ei rhoi iddo o dan adran [adran i’w mewnosod gan welliant 38] (ar unrhyw adeg) wneud cais am drwydded llety ymwelwyr o dan adran 18 (“trwydded lawn”).
- (2) Ond pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi trwydded lawn i DLIY mewn cysylltiad â mangre o dan adran [adran i’w mewnosod gan welliant 27], rhaid iddynt ddirymu’r drwydded llety ymwelwyr dros dro y mae’r DLIY yn meddu arni mewn cysylltiad â’r fangre honno.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch trwyddedau dros dro.
- (4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (3) (ymysg pethau eraill) –
 - (a) gwneud darpariaeth ar gyfer trosedd ddiannod y gellir ei chosbi drwy ddirwy mewn cysylltiad â thorri’r amod yn adran [adran i’w mewnosod gan welliant 38](3)(b);
 - (b) gwneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch cymhwyso troseddau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr dros dro, gan gynnwys darpariaeth sy’n addasu’r troseddau hynny o ran eu cymhwyso mewn perthynas â thrwyddedau o’r fath;
 - (c) diwygio –

- (i) y Ddeddf hon;
- (ii) Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5)ʼ.

Mark Drakeford

40

Section 28, page 19, line 9, leave out ‘VAP to which the Welsh Ministers give notice of a decision under the following sections may appeal against that decision to the tribunal –

- (a) section 20(4)(a);
- (b) section 21(2)(b);
- (c) section 23(2)ʼ

and insert –

‘person to which the Welsh Ministers give notice of a decision in subsection (2) may appeal against that decision to the tribunal.

- () The decisions are –
 - (a) a decision of the Welsh Ministers in relation to the grant of a visitor accommodation licence;
 - (b) a decision of the Welsh Ministers in relation to the revocation of a visitor accommodation licenceʼ.

Adran 28, tudalen 19, llinell 10, hepgorer ‘DLIY y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad am benderfyniad iddo o dan yr adrannau a ganlyn apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw iʼr tribiwnlys –

- (a) adran 20(4)(a);
- (b) adran 21(2)(b);
- (c) adran 23(2)ʼ

a mewnosoder –

‘person y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad iddo am benderfyniad a dan is-adran (2) apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw iʼr tribiwnlys.

- () Y penderfyniadau yw –
 - (a) penderfyniad gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â rhoi trwydded llety ymwelwyr;
 - (b) penderfyniad gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â dirymu trwydded llety ymwelwyrʼ.

Mark Drakeford

41

Page 19, line 30, leave out section 29.

